PAY JUSTICE

ar gyfer gweithwyr ysgolion a chynghorau

UNSAIN

Mae'ch cyflog o bwys. Dyna pam mae UNSAIN, wrth ochr yr undebau eraill mewn llywodraeth leol ac ysgolion, yn dal i negodi gyda chyflogwyr i gael bargen well ar gyflogau ichi. Ers blynyddoedd nawr rydych wedi gwneud mwy o waith am lai o arian.
Erbyn hyn mae'n amser newid hynny.

Mae UNSAIN eisiau cyfiawnder cyflog i chi ac i bawb sy'n gweithio mewn ysgolion a llywodraeth leol ac rydym wedi cyflwyno cais cyflog i'r cyflogwyr ar eich rhan sy'n gofyn am:

- gael gwared ar NJC a'r holl bwyntiau cyflog sy'n is na Chyflog Byw y DU (a dileu pwyntiau cyflog GLPC sy'n is na Chyflog Byw Llundain)
- codiad cyfradd safonol o £1 yr awr ar bob pwynt cyflog arall
- cadw a diogelu telerau ac amodau Rhan 2 y Llyfr Gwyrdd
- triniaeth deg ar gyfer staff cymorth ysgol trwy gyd-adolygiad o weithio yn ystod amser y tymor

Credwn fod ein galwad am y Cyflog Byw ac £1 yr awr ar bwyntiau cyflog uwchben yn deg a fforddadwy. Ers blynyddoedd nawr mae eich cyflog wedi bod yn llusgo y tu ôl i brisiau a chredwn fod hyn yn wael i chi a'ch teulu ac yn wael i'r gwasanaethau rydych yn eu darparu i'r cyhoedd. Mae pawb yn elwa o wasanaethau cyhoeddus a ddarperir gan staff brwdfrydig a delir yn deg ac a hyfforddir yn iawn.

Rydym eisiau i gyflogwyr arddangos eu bod yn gwerthfawrogi'ch ymroddiad a'ch sgiliau trwy ddiogelu'ch telerau ac amodau – pethau megis tâl salwch.

Rydym eisiau i rôl hanfodol staff cymorth ysgol gael ei chydnabod a'i gwerthfawrogi trwy roi contractau teg ichi fel y gallwch ganolbwyntio ar y plant yn eich ysgol yn hytrach na phoeni am dalu'ch biliau.

Yn 2015 mae'ch cyflog yn werth 20% yn llai nag ydoedd bum mlynedd yn ôl o ganlyniad i rewiadau cyflog y llywodraeth a chodiadau cyflog nad ydynt wedi cadw i fyny â chwyddiant.

Ac, i wneud pethau hyd yn oed yn waeth, mae llawer ohonoch wedi gweld amodau gweithio eraill yn cael eu torri hefyd. Nawr mae'r Canghellor George Osborne eisiau gwneud bywyd yn galetach trwy roi cap o 1% ar eich cyflog fel na fyddwch byth yn adennill yr arian rydych wedi'i golli.

Dywed y bydd gweithwyr ar gyflogau isel yn well eu byd gyda'r Cyflog Byw Cenedlaethol newydd o £7.20 ond mewn gwirionedd nid yw hynny'n wir. Caiff unrhyw godiad cyflog ar gyfer y rhai hynny ar gyflog isel o ganlyniad i'r Cyflog Byw Cenedlaethol a'r lwfans treth bersonol uwch ei dynnu'n ôl trwy doriadau'r llywodraeth ar gredydau treth gwaith a'r trothwy ar gyfer budd-daliadau.

A dywed llawer o gynghorau y bydd toriadau'r llywodraeth o 40% yn eu gadael yn brwydro i ariannu unrhyw godiad cyflog o gwbl ar gyfer ein haelodau sy'n ennill mwy na'r Cyflog Byw Cenedlaethol newydd - felly does neb yn ennill.

Ni allwn barhau fel hyn. Ni ellir disgwyl ichi ddal i ddarparu gwasanaethau lleol hanfodol tra bod eich cyflog yn troelli tuag i lawr ac mae eich amodau gwaith yn gwaethygu. Ac wrth i'ch cyflog ddisgyn, felly mae eich pensiwn hefyd.

Mae'ch ewyllys dda'n cael ei cham-drin. Yng ngwyneb toriadau a cholledion swyddi ymhobman, rydych yn cadw cymunedau ynghyd tra bod gwasanaethau'n cael eu llethu gan alwadau'r cyhoedd. Mae disgwyliadau cyflogwyr wedi cynyddu hefyd. Dim rhyfedd bod y llwyth gwaith a lefelau straen yn mynd dros ben llestri a bod morâl ar y gwaelod isaf un.

Mae UNSAIN yn ymgyrchu i lywodraeth ganolog ddarparu cyllid ychwanegol i gynghorau ac i'r CLlL er mwyn adfer lefelau cyflog derbyniol ar gyfer yr holl weithlu. Dyna ein blaenoriaeth ac mae arnom angen eich help.

Ewch i unison.org.uk/NJCpay16-17 lle byddwch yn gweld rhagor o fanylion ynghylch cyflogau mewn ysgolion a llywodraeth leol. Yna cofrestrwch i fod yn rhan o'n hymgyrch fel gallwn anfon diweddariadau atoch. Yna gallwch sicrhau y clywir eich llais ar gyflogau trwy gymryd rhan yng ngweithgareddau'r ymgyrch.

Ac efallai gallech annog eich cydweithwyr i gofrestru hefyd fel gallant fod yn rhan o'n hymgyrch i ennill cyfiawnder ar gyfer cyflogau.

Tair ffordd seml i ymuno ag UNSAIN heddiw a chael sicrwydd hanfodol ble bynnag rydych yn gweithio

Ymunwch â ni ar-lein yn **joinunison.org**

Ffoniwch ni ar **0800 171 2193**

Gofynnwch i'ch cynrychiolydd UNSAIN am ffurflen gais

Wedi'i chyhoeddi a'i hargraffu gan UNSAIN, Canolfan UNSAIN, 130 Euston Road, Llundain NW1 2AY. CU/Hyd2015/23503/rhif stoc 3585 UNP cyf 14125

PAY JUSTICE

for school and council workers

UNISON

Your pay matters. That's why UNISON, alongside the other unions in local government and schools, is continuing to negotiate with employers to get you a better deal on pay. For years now you have done more work for less money. Now it's time to change that.

UNISON wants pay justice for you and everyone working in schools and local government and we have submitted a pay claim to the employers on your behalf that asks for:

- the scrapping of NJC and all local pay points which are below the UK Living Wage (and deletion of GLPC pay points lower than the London Living Wage)
- a flat rate increase of £1 an hour on all other pay points
- the retention and protection of Green Book Part 2 terms and conditions
- fair treatment for school support staff through a joint review of term time working.

We believe that our demand for the Living Wage and £1 an hour on pay points above it is fair and affordable. For years now your pay has been lagging behind prices and we believe that this is bad for you and your family and bad for the services you provide to the public. Everyone benefits from public services that are provided by fairly paid, motivated and properly trained staff.

We want employers to demonstrate that they value your dedication and skills by protecting your terms and conditions – things like sick pay.

We want the vital role of school support staff to be recognised and valued by giving you fair contracts so you can focus on the children in your school rather than be worrying about paying your bills.

In 2015 your pay is worth 20% less than it was five years ago as a result of government pay freezes and pay rises that haven't kept up with inflation.

And, to add insult to injury, lots of you have seen other working conditions cut too. Now the Chancellor George Osborne wants to make life harder by putting a 1% cap on your pay so you will never make up the money you have lost.

He says that low paid workers will be better off with the new National Living Wage of £7.20 but that's just not true. Any wage increase for the low paid as a result of the National Living Wage and the higher personal tax allowance will be clawed back through government cuts to working tax credits and the benefit threshold.

And many councils say that 40% government cuts will leave them struggling to fund any pay increase at all for our members earning above the new National Living Wage – so nobody wins.

We can't go on like this. You can't be expected to continue providing vital local services while your pay spirals downwards and your working conditions get worse. And as your pay falls, so does your pension.

Your goodwill is being abused. In the face of cuts and job losses everywhere, you are holding communities together while services are swamped by public demand. Employers' expectations have increased too. No wonder workload and stress levels are going through the roof and morale is at rock bottom!

UNISON is campaigning for central government to provide additional funding for councils and for the LGA to restore decent pay levels for the entire workforce. That is our priority and we need your help.

Please go to unison.org.uk/NJCpay16-17 where you will find more details about what we are doing about pay in schools and local government. Then sign up to be part of our campaign so that we can send you updates. Then you can make your voice heard on pay by getting involved in campaign actions.

And perhaps you could encourage your colleagues to sign up too so they can be part of our campaign for pay justice.

Three simple ways to join UNISON today and get essential cover wherever you work

Join online at
joinunison.org

Call us on
0800 171 2193

Ask your UNISON rep
for an application form

Published and printed by UNISON, UNISON Centre, 130 Euston Road, London NW1 2AY.
CU/Oct2015/23503/stock number 3585 UNP ref 14125